# Prifysgol Abertawe

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol: **Cynllun Gweithredu**

**2024-2028**

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, e.e. print bras, braille etc
e-bostiwch **equalopportunities@abertawe.ac.uk**

# Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn gynllun gweithredu ar lefel uchel i gyflawni wyth canlyniad Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028. Mae gweithredu'r cynllun hwn wedi'i ategu drwy gyflawni sawl cynllun gweithredu arall, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u llunio fel rhan o'n cyflwyniadau  Athena Swan a'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol a'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'n cais REF. Yn y cynlluniau gweithredu penodol hyn, ceir camau gweithredu penodol sydd wedi'u nodi'n glir, ynghyd â manylion am sut cânt eu cyflawni (h.y. y mecanweithiau), pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu, a phryd caiff y camau gweithredu eu cwblhau.Caiff y cynlluniau gweithredu penodol hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n barhaus i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn effeithiol ac yn briodol

# Canlyniad 1

**Piler Strategol Pobl a Diwylliant: Perfformiad a Gwobrwyo**

**Canlyniad: Sicrhau tegwch mewn cyflogau o ran rhyw, hil ac anabledd, drwy adrodd am y bylchau cyflog a nodwyd a llunio camau gweithredu i'w lleihau.**

### Amcanion:

**Rhywedd:** Lleihau'r bwlch cymedrig presennol rhwng cyflogau'r rhywiau 2 bwynt canran erbyn 2028 (14.4% yn 2023).

**Hil:** nodi'r bylchau cymedrig a chanolrif presennol rhwng cyflogau, gan ddechrau adrodd yn 2024.

**Anabledd:** nodi'r bylchau cymedrig a chanolrif presennol rhwng cyflogau, gan ddechrau adrodd yn 2024.

**Ysgogwyr allweddol**

Deddf Cydraddoldeb 2010; Cynllun Gweithredu Athena Swan; Gwybodaeth Reoli Fewnol am Dâl fesul Rhyw; canlyniad ymgysylltu â'r gymuned; Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yng Nghymru; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; y Siarter Cydraddoldeb Hiliol; Cynllun Strategol y Brifysgol 2020; Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru; Gwybodaeth Reoli Allanol gan Adroddiad Ystadegol Addysg Uwch 2022; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024.

### Camau gweithredu:

Adroddir ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau bob blwyddyn, yn unol ag argymhellion gov.uk ar gyfer adrodd.

Cynyddu canran yr athrawon benywaidd (25.9% ar hyn o bryd) i feincnod y sector.

Cynyddu nifer yr Athrawon Cysylltiol benywaidd (39.7% ar hyn o bryd) i feincnod y sector.

Cynnydd o 3% yng Nghanran y menywod yn chwartel uchaf strwythur cyflogau'r Brifysgol (42% ar hyn o bryd).

Mae holl aelodau'r Pwyllgor Uwch Gyflogau Athrawol a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cwblhau Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod.

Cyflwyno cais i fod yn Brifysgol Aur Athena Swan erbyn 2029.

Cyflwyno cais am Siarter Cydraddoldeb Hiliol erbyn 2025.

Pennu camau gweithredu perthnasol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng cyflogau ar sail ethnigrwydd erbyn 2025.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Rhyw, Hil ac Anabledd

**Terfynau Amser:**
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028

# Canlyniad 2

## Piler Strategol Pobl a Diwylliant: Cynllunio'r Gweithlu a'i Ddatblygu

## Canlyniad: Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb wedi'u gwreiddio ym mhob un o feysydd cynllunio a datblygu'r gweithlu

### Amcanion

Deall ein gweithlu presennol a phennu sut mae angen datblygu hynny i fodloni gofynion strategol y brifysgol, drwy lens cydraddoldeb.

Creu hinsawdd lle rydym yn gwella amrywiaeth ein gwaith recriwtio ac yn galluogi ein staff i symud ymlaen a datblygu mewn amgylchedd cefnogol.

Adolygu ein Llwybrau Gyrfa Academaidd gan gynnwys dyrchafiad academaidd, gan sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hystyried drwy gydol y broses.

Cytuno ar egwyddorion ar gyfer dyrannu llwyth gwaith academyddion a'u rhoi ar waith.

Datblygu ein capasiti a'n gallu arweinyddiaeth:

Cynyddu nifer yr arweinwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cynnwys ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn yr holl hyfforddiant arweinyddiaeth, gan sicrhau bod diwylliant wedi'i ymgorffori drwyddi draw.

Atgyfnerthu ymrwymiad yr uwch-arweinwyr i Gydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn (EDIB).

### Camau gweithredu:

Mae EDI wedi'u gwreiddio wrth ailgynllunio ac ailstrwythuro'r Gwasanaethau Proffesiynol, gan sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol yn cael eu cynnal.

Cynyddu canran yr athrawon benywaidd (25.9% ar hyn o bryd) i feincnod y sector.

Cynyddu nifer yr Athrawon Cysylltiol benywaidd (39.7% ar hyn o bryd) i feincnod y sector.

Cynyddu nifer yr arweinwyr academaidd benywaidd o grwpiau lleiafrifol ethnig (ar hyn o bryd mae 3% o'r holl gydweithwyr mewn rolau Cyfarwyddwyr neu Athrawon Academaidd yn fenywod o leiafrifoedd ethnig).

Cynyddu canran yr aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol o leiafrifoedd ethnig (0% ar hyn o bryd).

Cynyddu canran yr arweinwyr academaidd anabl a'r Cyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol sy'n anabl (5.6% ar hyn o bryd).

Cynyddu nifer yr arweinwyr academaidd (Athrawon, Dirprwy Is-gangellorion a'r Is-ganghellor) a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol sy'n LHDT+ (2.6% ar hyn o bryd).

Lleihau'r gwahaniaethau rhwng cyfraddau llwyddiant recriwtio ar sail ethnigrwydd. (Ar hyn o bryd, y bwlch rhwng y gyfradd lwyddiant

rhwng cydweithwyr gwyn a’r rhai hynny o leiafrifoedd ethnig yw 13.6%).

Monitro effaith y newidiadau diweddar a wnaed i'r broses recriwtio a'r systemau presennol ar sail nodweddion gwarchodedig (Ymlaen).

Sicrhau bod argymhellion gan Is-grŵp Cydraddoldeb y Llwybrau Gyrfa Academaidd (ACP) yn cael eu gwneud i'r Grŵp Llywio ACP i lywio'r gwaith o ddatblygu'r llwybrau a'r strategaethau dilyniant newydd.

Mae EDI wedi'u gwreiddio a'u cydnabod yn benodol wrth ymgysylltu ag  egwyddorion ar ddyrannu llwyth gwaith academyddion, wrth gytuno arnynt a’u rhoi ar waith, gan sicrhau bod grwpiau amrywiol o gydweithwyr yn rhan o'r gweithgarwch hwnnw.

Sefydlu egwyddorion EDI mewn hyfforddiant a datblygiad arweinyddiaeth, gan sicrhau bod diwylliant yn cael ei ymgorffori drwyddi draw.

Gwreiddio a hyrwyddo EDI drwy Gynllun Gweithredu’r REF.

Darparu cyfleoedd i gydweithwyr benywaidd ac o grwpiau lleiafrifoedd ethnig gymryd rhan a datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth gan ddefnyddio rhaglenni fel 'Rhaglen Amrywio Arweinyddiaeth' Advance HE ac Aurora.

Cyflwyno cais am y Siarter Cydraddoldeb Hiliol erbyn 2025.

Cynnal arferion sy'n arwain y sector ym maes cydraddoldeb LHT+ a Thraws.

**Ysgogwyr allweddol**

Ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol â staff a myfyrwyr; Adroddiad Universities UK  – ‘Tackling Racial Harassment in Higher Education’; Cynllun Gweithredu Athena Swan; Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; y Siarter Cydraddoldeb Hiliol; Adroddiad ar gyfer y Swyddfa Fyfyrwyr ‘Protecting students from hate crime and harassment’; Cynllun Strategol y Brifysgol 2020; Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Yr holl nodweddion gwarchodedig

**Terfynau A**mser:
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028

# Canlyniad 3

## Piler Strategol Pobl a Diwylliant: Diwylliant y Brifysgol

## Canlyniad: Hyrwyddo a gwella diwylliant o urddas a pharch i bawb, gan gynnwys gwella ymdeimlad o berthyn.

### Amcanion

Datblygu, gweithredu ac ymgorffori un set o werthoedd y Brifysgol, sy'n ysgogi'r ymddygiadau sy'n bwysig i ddiwylliant cynhwysol a chadarnhaol.

Dathlu ein cydweithwyr amrywiol a'r cyfraniadau cadarnhaol niferus y maent yn eu gwneud a'r effeithiau gwerthfawr y maent yn eu cael.

Cynyddu ymwybyddiaeth o systemau adrodd y sefydliad a'u gwella, er mwyn i staff ddweud bod ganddynt fwy o hyder wrth adrodd ac yn y ffordd y caiff achosion o fwlio ac aflonyddu eu rheoli.

Gwella dealltwriaeth o gyflyrau niwrowahanol a hyrwyddo cymorth effeithiol - gweithredu gofynion y Polisi Niwroamrywiaeth sydd newydd ei lunio yn llawn.

### Camau gweithredu:

Ymgysylltu, datblygu a chytuno ar un set o werthoedd y Brifysgol, sydd wedi'u llywio gan gynrychiolaeth amrywiol o staff.

Gweithio gyda chymunedau staff i feithrin diwylliant o berthyn ac un sy'n gwerthfawrogi cyfiawnder, bod yn agored, tegwch a thryloywder.

Cynnwys mesur ynghylch ymdeimlad o berthyn yn arolygon ymgysylltu'r Brifysgol yn y dyfodol.

Dathlu ein cydweithwyr a chynyddu amlygrwydd cyflawniadau grwpiau lleiafrifol/heb gynrychiolaeth ddigonol, drwy ddefnydd priodol o gyfathrebu sefydliadol ac allanol.

Cynnwys arferion gorau'r sector, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, a chynllun gweithredu LHDT+ Llywodraeth Cymru i adolygu'r polisi presennol ar Urddas yn y Gweithle ac Wrth Astudio, gan gryfhau astudiaethau achos ac enghreifftiau ynghylch lleiafrifoedd ethnig, LHDT+ ac anabledd yn benodol.

Cwmpasu system Adrodd a Chymorth y Sefydliad:

- er mwyn gallu cofnodi pob cwyn oherwydd bwlio ac aflonyddu, gan flaenoriaethu aflonyddu hiliol i gynyddu adrodd yn y maes hwn a

gwella'r cymorth a gynigir i staff.

- Ymgorffori proses adolygu parhaus i fonitro ac ymateb yn fwy effeithiol i achosion o wahaniaethu.

Cynyddu ymwybyddiaeth o'r polisi niwroamrywiaeth a chefnogi rheolwyr llinell i'w weithredu.

Gweithredu ac ymgorffori cynllun gweithredu Siarter Cydraddoldeb Hiliol y sefydliad (2025-2029).

Cynyddu dealltwriaeth o Wrth-hiliaeth, a ddarperir drwy gyflwyno hyfforddiant e-ddysgu ynghylch cydraddoldeb hil.

Cynnal arferion sy'n arwain y sector ym maes cydraddoldeb LHD+ a Thraws – rhoi camau gweithredu ar waith sy'n hyrwyddo diwylliant cadarnhaol a chysylltiadau da i gydweithwyr LHD+ a Thraws

**Ysgogwyr allweddol**

Gwybodaeth reoli fewnol; y Siarter Cydraddoldeb Hiliol; Siarter Athena Swan, Cynllun gweithredu LHDTC+ Cymru; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; canlyniad ymgysylltu â'r gymuned; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Yr holl nodweddion gwarchodedig

**Terfynau Amser**:
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028

# Canlyniad 4

## Piler Strategol Pobl a Diwylliant: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

## Canlyniad: Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth wraidd ein sefydliad a strategaethau ein prifysgol, drwy gynrychiolaeth ac ymgysylltu

### Amcanion

Ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Strategaethau, Cynllun a Rhaglenni Strategol ein Prifysgol, gweithio gyda chymunedau i feithrin diwylliant o berthyn ac un sy'n gwerthfawrogi ecwiti, natur agored, tegwch a thryloywder.

Gwella strwythurau llywodraethu drwy gynnwys a gosod cydraddoldeb a chynhwysiant wrth wraidd y penderfyniadau a wneir.

Monitro, cynnal a chwilio am gyfleoedd i wella cynrychiolaeth cydweithwyr sy'n datgan anabledd a chydweithwyr LHDT+ ar Gyngor y Brifysgol.

Monitro, cynnal a chwilio am gyfleoedd i wella cynrychiolaeth cydweithwyr benywaidd ac o leiafrifoedd ethnig ar bwyllgorau sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol.

Defnyddio gwybodaeth reoli briodol i lywio ein cyfeiriad a chadarnhau'r cynnydd a wnaed.

### Camau gweithredu:

Monitro, cynnal a chwilio am gyfleoedd i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ac o ran ethnigrwydd ar Gyngor y Brifysgol.

Monitro, cynnal a chwilio am gyfleoedd i wella cynrychiolaeth cydweithwyr sy'n datgan anabledd a chydweithwyr LHDT+ ar Gyngor y Brifysgol.

Monitro, cynnal a chwilio am gyfleoedd i gynyddu cynrychiolaeth cydweithwyr benywaidd ac o leiafrifoedd ethnig ar bwyllgorau Cyngor y Brifysgol, yn enwedig lle nad oes cynrychiolaeth.

Sicrhau bod holl aelodau Pwyllgorau Cyngor y Brifysgol wedi ymgymryd â hyfforddiant EDI perthnasol.

Gweithredu ac ymgorffori cynllun gweithredu'r sefydliad ar gyfer Dyfarniad Arian Athena Swan (2023-2028) a chyflwyno cais gan y Brifysgol am Ddyfarniad Aur Athena Swan erbyn 2029.

Cyflwyno cais am y Siarter Cydraddoldeb Hiliol erbyn 2025.

Gweithredu cynllun gweithredu Siarter Hiliol y sefydliad (2025-2029).

Cynnal arferion sy'n arwain y sector ym maes cydraddoldeb LHT+ a Thraws.

Cynyddu hyder cydweithwyr i ddatgelu nodweddion gwarchodedig, yn enwedig lle

mae nifer uchel o ymatebion 'gwell gennyf beidio â dweud' e.e. Crefydd a Chred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Ailbennu Rhywedd.

**Ysgogwyr allweddol**

Gwybodaeth reoli fewnol ac allanol; Cynllun Gweithredu Athena Swan; y Siarter Cydraddoldeb Hiliol; canlyniad ymgysylltu â'r gymuned; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Anabledd, Hil, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Crefydd a Chred, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

**Terfynau Amser:**
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028

# Canlyniad 5

## Canlyniad: Sicrhau tegwch wrth ddyfarnu graddau mewn perthynas â rhyw, hil ac anabledd, drwy nodi gwahaniaethau yn y graddau a ddyfernir, adrodd arnynt a'u lleihau.

### Amcanion

Nodi'r gwahaniaethau presennol yn y graddau a ddyfernir mewn perthynas â rhyw, hil ac anabledd.

Cytuno ar dargedau priodol a'u pennu er mwyn lleihau'r gwahaniaethau rhwng graddau a ddyfernir.

Llunio a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r targedau a bennir.

### Camau gweithredu:

Cynnal dadansoddiad blynyddol o fylchau wrth ddyfarnu graddau ar draws disgyblaethau a Chyfadrannau.

Sefydlu ac ymgorffori proses monitro a gwerthuso barhaus i ymateb i wahaniaethau.

Datblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddiant i staff academaidd sy'n canolbwyntio ar addysgeg afaelgar ac arferion cynhwysol.

Darparu cyfres o offer ac adnoddau hygyrch i rymuso staff i weithio'n rhagweithiol drwy'r prosiect diwygio'r cwricwlwm.

Cynnal adolygiadau rheolaidd o bolisïau ac arferion academaidd i nodi meysydd i'w gwella a sicrhau cydymffurfiaeth â'n hamcanion EDI.

Cyflwyno cais am y Siarter Cydraddoldeb Hiliol erbyn 2025.

**Ysgogwyr allweddol**

Gwybodaeth reoli fewnol ac allanol; Cynllun Gweithredu Athena Swan a'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol; canlyniad ymgysylltu â'r gymuned; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Anabledd, Hil, Rhyw.

**Terfynau A**mser:
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028

# Canlyniad 6

## Canlyniad: Hyrwyddo a gwella diwylliant o gynwysoldeb, ymdeimlad o berthyn a gwrth-hiliaeth ym mhob rhan o'r gymuned o fyfyrwyr.

### Amcanion

Dathlu myfyrwyr o bob cefndir a chanddynt brofiadau amrywiol, gan amlygu'r cyfraniadau cadarnhaol a'r effeithiau gwerthfawr niferus y maent yn eu gwneud.

Cynyddu hyder myfyrwyr yn y broses adrodd a rheoli achosion o fwlio ac aflonyddu.

Cynyddu ymwybyddiaeth o wrth-hiliaeth yn y gymuned o fyfyrwyr.

Cynyddu cynrychiolaeth arweinwyr myfyrwyr, gan gynnwys y rhai hynny o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y rhai hynny sydd ag anabledd a'r rhai LHDTC+.

### Camau gweithredu:

Cynyddu amrywiaeth yr arlwyo a gynigir ar draws campysau i adlewyrchu poblogaeth amrywiol ein myfyrwyr.

Gwreiddio'n llawn egwyddorion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a'r ddeddfwriaeth bresennol megis Deddf Cydraddoldeb 2010, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2010, yn yr adolygiad o bolisïau ac arferion.

Lansio ymgyrch gadarnhaol barhaus ynghylch Cynhwysiant a Pherthyn, gan dynnu sylw at nodweddion gwarchodedig gan gynnwys hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, anabledd, a hunaniaeth drawsryweddol.

Archwilio cyfleoedd i ehangu darpariaeth system Adrodd a Chymorth y Sefydliad i gofnodi pob cwyn am fwlio ac aflonyddu, gan flaenoriaethu aflonyddu hiliol a microymosodiadau i fagu hyder wrth adrodd amdanynt a gwella'r cymorth a gynigir i fyfyrwyr yr effeithir arnynt.

Nodi a darparu cyfleoedd hyfforddiant blynyddol i staff sy'n ymdrin â myfyrwyr, i wella hyder wrth gefnogi myfyrwyr sy'n adrodd am ddigwyddiadau.

Cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau, ac ymgyrchoedd blaenllaw sy'n archwilio ymagweddau croestoriadol fel; Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes Asiaidd, Mis Hanes LHDTC+, Mis Hanes Anabledd, Gŵyl y Darlun Mwy, Cynhadledd Myfyrwyr Rhyngwladol, a gynhelir yn flynyddol rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr drwy gydol pob blwyddyn academaidd.

Hwyluso fforymau a chyfleoedd i drafod a deall materion a heriau sy'n unigryw i fyfyrwyr o grwpiau amrywiol.

Gwella integreiddio myfyrwyr newydd o gefndiroedd amrywiol mewn preswylfeydd myfyrwyr a llety'r Brifysgol drwy weithgareddau pwrpasol a chymorth strwythuredig.

Gweithredu cwrs Gwrth-hiliaeth ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr ac arweinwyr myfyrwyr, gan ei ddarparu mewn grwpiau bach ar-lein ac wyneb yn wyneb drwy gydol y flwyddyn academaidd i wella ymwybyddiaeth.

Cynnwys mesur ar gyfer ymdeimlad o berthyn yn arolygon ymgysylltu'r brifysgol yn y dyfodol.

Cyfleu mecanweithiau a chymorth ar gyfer cymryd rhan mewn arferion cynhwysol, cymryd rhan mewn rhwydweithiau myfyrwyr a chyfrannu at fentrau ledled y Brifysgol.

**Ysgogwyr allweddol**

Gwybodaeth reoli fewnol ac allanol; Cynllun Gweithredu Athena Swan a'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol; canlyniad ymgysylltu â'r gymuned, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2010; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Terfynau A**mser:
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028

# Canlyniad 7

## Canlyniad: Cyflwyno fframwaith cwricwlwm diwygiedig sy'n gynhwysol, yn gynrychioladol, yn gymwys yn ddiwylliannol ac yn wrth-hiliol.

### Amcanion

Adolygu'r cwricwla presennol mewn perthynas ag ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI).

Llunio cynllun gweithredu i ymdrin âr fframwaith cwricwlwm diwygiedig.

Rhoi'r camau gweithredu perthnasol ar waith i wreiddio ystyriaethau EDI.

### Camau gweithredu:

Darparu hyfforddiant ar 'Addysgeg Wrth-hiliol', 'Fframwaith y Cwricwlwm Cynhwysol' a'r 'Cwricwlwm Cudd' ar gyfer staff academaidd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Gweithredu mecanwaith i olrhain adborth, cyfranogiad a chyfraddau cwblhau, o ran staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant, ynghylch y prosiect i ddiwygio'r cwricwlwm.

Darparu cymorth ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a staff academaidd i ddatblygu a darparu cwricwlwm diwygiedig, gwrth-hiliol sydd wedi'i ddad-drefedigaethu.

Cynnal adolygiad trylwyr o'r holl gwricwla a dulliau asesu o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan ymgorffori Dylunio Cyffredinol ac ymagwedd wrth-hiliol.

Sicrhau cyfranogiad ac adborth gweithredol gan fyfyrwyr drwy sianelau swyddogol megis Cymuned yr Adolygwyr Myfyrwyr, Cynrychiolwyr Myfyrwyr a Phwyllgor Cynghori'r Myfyrwyr ar gyfer Cynhwysiant Hiliol.

Cydnabod a dathlu ymdrechion ein staff a'n myfyrwyr i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ddyrannu llwyth gwaith a diogelu amser, gwobrau ac mewn Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol.

**Ysgogwyr allweddol**

Gwybodaeth reoli fewnol ac allanol; Cynllun Gweithredu Athena Swan a'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol; canlyniad ymgysylltu â'r gymuned; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Terfynau A**mser:
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028

# Canlyniad 8

## Cynyddu ymwybyddiaeth o gamymddygiad rhywiol a nodi camau gweithredu priodol y gellir eu rhoi ar waith i leihau achosion o gamymddygiad rhywiol a mynd i'r afael â nhw.

### Amcanion

Creu newid cadarnhaol yn y diwylliant drwy fabwysiadu ymagwedd Prifysgol gyfan at fynd i'r afael â chamymddygiad rhywiol.

Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr am sut gallant roi gwybod am gamymddygiad rhywiol.

Darparu hyfforddiant i staff i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cefnogi myfyrwyr drwy achosion o gamymddygiad rhywiol wedi'u paratoi'n briodol a bod ganddynt y sgiliau priodol.

Cydweithredu â swyddogion perthnasol Undeb y Myfyrwyr i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gydsyniad.

### Camau gweithredu:

Nodi a darparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol ynghylch camymddygiad rhywiol i staff priodol.

Hyrwyddo'r platfform ar gyfer adrodd am gamymddygiad rhywiol yn rheolaidd, wyneb yn wyneb ac ar-lein, ar gyfer staff a myfyrwyr.

Cyflwyno Grŵp Tasglu Camymddygiad Rhywiol sy'n cynnwys staff o bob rhan o'r Brifysgol i fod yn sbardun i fynd i'r afael â chamymddygiad rhywiol.

Cyd-greu ymgyrch ynghylch cydsynio gyda swyddogion perthnasol Undeb y Myfyrwyr.

**Ysgogwyr allweddol**

Gwybodaeth reoli fewnol ac allanol; y Siarter Cydraddoldeb Hiliol; canlyniad ymgysylltu â'r gymuned; Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru; Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol 2020-2024; cylchlythyr CCAUC 'Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn addysg uwch'.

**Nodweddion gwarchodedig perthnasol:**
Yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Terfynau Amser:**
Drwy gydol cyfnod y strategaeth ac erbyn mis Mawrth 2028